



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,
nos Fawrth, 19 Ebrill 2016 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room
on Tuesday, 19 April 2016 at 6.00pm.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**), Dai Brabrook, Graham Evans, Catrin Miles, Jane Roche, Mark Cole (7.00yh).

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs. John Adams-Lewis, Akira Shimazaki

Cyflwyniad / Presentation

Mr Jon Parker – Prosiect Pysgotwyr yr Ardal / Local Fishermen Project

Cyflwynodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, Mr Jon Parker. Cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr ganddo am ei ddyheadau i sefydlu busnes cynnal pysgotwyr masnachol yn yr ardal. Y cam cyntaf bydd cynnal astudiaeth dichonoldeb i gyfri nifer y pysgotwyr a nifer y cychod perthnasol sydd yn yr ardal a hefyd nifer y rhai fydd ganddynt ddiddordeb i ddatblygu'r busnes. Y bwriad yw cynorthwyo'r pysgotwyr i farchnata eu dalfeydd ac i'w cludo yn union i ganolfan brosesu gyfagos. Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu bwrdd o ymddiriedolwyr oddeutu chwech neu saith aelod. Cytunodd Mr Parker anfon rhagor o wybodaeth berthnasol ymlaen i'w dosbarthu i holl aelodau'r cyngor.

The Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, introduced Mr Jon Parker. A comprehensive presentation was given by Mr Parker of his aspirations to form a business group of local commercial fishermen in the locality. It is hoped that a feasibility study will uncover the number of fishermen, the number of fishing vessels and the positive response expected. The prime purpose is to assist the fishermen to market their product and to transport the hauls to a nearby processing plant within a rapid time scale. Plans are underway to form a board of six or seven trustees to form a company. Mr Parker agreed to forward additional information to be distributed to all members of the council.

Cynllunio / Planning

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A160294	Bathroom Centre, The Strand	Demolition of existing redundant and derelict church and erection of a new storage shed.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

Cae Chwarae Pentop Play Area

Newidiadau i'r brydles: Gohebiaeth rhwng Welch & Co a Huw James Cyfreithwyr.

Amendments to the lease: Correspondence between Welch & Co and Hugh James Solicitors.

Awgrymwyd bod y Cyng. Catrin Miles yn ymateb i'r llythyr.

It was recommended that Cllr Catrin Miles responds to the letter.

Hamdden / Recreation

Cynnal y Cardi: The expression of interest form (final draft).

Maes Sgrialu / Skateboard Park: Pris / Quotation from Prestec regarding the resurfacing.

Awgrymwyd bod y clerc yn anfon y pris diwygedig am waith ar y maes sgrialu ymlaen at Catherine Morgan a hefyd bod grŵp lleol yn cael ei ffurfio er mwyn codi arian a cheisio am grantiau. Awgrymwyd bod cwmni Prestec yn cael gwybod bod y pris tu hwnt i gyllideb y cyngor am y tro.

It was recommended that the clerk forwards the revised quotation to Catherine Morgan and that a local fund-raising group be formed to seek grants which might be available for the improvements to the park. It was also recommended that Prestec be informed that the quotation is beyond the present budget of the council.

Theatr Byd Bychan: Gorymdaith o Lanternau – Nadolig 2016

Small World Theatre: Lantern Parade – Christmas 2016

Awgrymwyd bod llythyr o gefnogaeth yn cael ei anfon at ymdrechion Theatr Byd Bychan i gynnal y gweithgareddau adeg y Nadolig.

It was recommended that a letter of support be forwarded to Small World Theatre to endorse their Christmas activities.

Priffyrdd / Highways

Masnach ar Gei'r Tywysog Siarl.

Commerce on the Prince Charles Quay: Icegreen van.

Nodwyd bod y cerbyd bellach wedi ei leoli yng nghwrt Neuadd y Dref. Cytunodd y Cyng. Jane Roche wneud ymholiadau ynglŷn â'r datblygiad yng nghyfarfod nesaf Menter Aberteifi. Awgrymwyd bod cynrychiolwyr y cyngor yn trafod problem parcio ar hyd balmentydd yr anabl, parcio trafferthus ar Ffordd Aberystwyth a hefyd ar gei'r Tywysog Siarl yng nghyfarfod nesaf PACT.

It was noted that the Icegreen van had relocated to the Guildhall courtyard. Cllr Jane Roche agreed to pursue the matter at the next Menter Aberteifi meeting. It was recommended that councillors discuss the problem of disabled pavement parking, the Aberystwyth Road parking problem and the parking of vehicles on the Prince Charles quayside at the next PACT meeting.

Goleuadau'r Nadolig / Christmas Lights

Pris am oleuadau ychwanegol / Quotation for additional lights.

Awgrymwyd bod y cyngor yn mynnu bod y dystysgrif drydanol yn cyrraedd cyn archebu rhagor o oleuadau Nadolig oddi wrth y cwmni. Awgrymwyd hefyd bod y gwaith o newid y goleuadau, fel a gytunwyd gan y cwmni, yn cael ei gyflawni cyn 20 Gorffennaf, a bod cyflenwad y trydan yn cael ei reoli o Neuadd y Dref a Siop Beiciau Pendre.

It was recommended that the council insists that the electrical certificate be received before purchasing additional Christmas lights from the company. It was also recommended that the work to replace the lights be completed before 20 July, and that the source of power for the lights be obtained from the Guildhall and the Pendre Bike Shop.

Llifogydd / Floods

Diweddariad / Update: Cynllun Llifogydd / Community Flood Plan. Nodwyd / Noted.

Datgan diddordeb/Declaration of interest:

Y Cyng./Cllr Catrin Miles (Theatr Byd Bychan/Small World Theatre)

Y Cyng. Jane Roche (Cyflwyniad Jon Parker/ Presentation)

Er gwybodaeth / For information

Bore Llun, 25 Ebrill am 11.00yb—Gwasanaeth Anzac ger y Senotaff. Yn absenoldeb y Maer, bydd y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, yn gosod y blethdorch ar ran y cyngor.

Monday, 25 April at 11.00am—Anzac Service at the Cenotaph. In the Mayor's absence, the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, will place the wreath on behalf of the council.

Nos Fawrth, 10 Mai am 6.30yh—Cyfarfod Misol y Cyngor. SYLWER AR Y DYDDIAD WEDI EI AILDREFNU.

Tuesday, 10 May at 6.30pm—Monthly Council Meeting. PLEASE NOTE REARRANGED DATE.

Nos Fawrth, 17 Mai am 7.30yh—Seremoni Sefydlu'r Maer yn Neuadd y Dref.

Tuesday, 17 May at 7.30pm—Mayor's Installation Ceremony in the Guildhall.

Prynhawn Sul, 22 Mai am 2.00yp—Gwasanaeth Dinesig y Maer yng Nghapel Bethania.

Sunday, 22 May at 2.00pm—Mayor's Civic Service in Bethania Chapel.

Gwyliau'r Clerc / Clerk's Vacation: Mai 23-31.

Taith Swyddogol y Maer a'r Faeres i Tokyo/Mayor and Mayoress' Official Visit to Tokyo: 18-29/4/2016.

Taith Swyddogol y Maer a'r Faeres i Brioude/Mayor and Mayoress' Official Visit to Brioude: 3-9/5/2016.